Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Gwasanaeth Anableddau Dysgu

## Dyddiad y gweithgarwch: 13 Ebrill 2021

Dyddiad cyhoeddi: 19 Mai 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80195-407-5

© Hawlfraint y Goron 2021

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o uned gofal iechyd parhaus anableddau dysgu fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r uned wedi'i lleoli mewn adeilad pwrpasol sydd â phum ystafell wely, ac mae'n rhoi gofal i ddynion a menywod sydd ag anableddau dysgu ac ymddygiadau heriol.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â Nyrs Arweiniol y Gyfarwyddiaeth a Rheolwr a Dirprwy Reolwr yr Uned ar 13 Ebrill 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed o ganlyniad i COVID-19 i'r canlynol:
    - Yr amgylchedd ffisegol
    - Arferion, trefniadau ar gyfer ymweliadau a chadw mewn cysylltiad ag anwyliaid
    - Rheoli ymddygiad
    - Gallu'r cleifion i fynd am dro yn y gymuned/gadael y ward dros dro, a mwynhau gweithgareddau a rhwydweithiau cymdeithasol (gan gynnwys absenoldeb ffurfiol lle mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn gymwys)?

- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol ehangach pan fydd angen?

- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn

perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a deddfwriaeth DoLS, a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd y staff fod nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd mewn ymateb i'r pandemig. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau pellter cymdeithasol rhwng y preswylwyr a'r staff cymaint â phosibl, dyrannu dyletswyddau penodol i'r staff, a defnyddio ystafell wely wag fel ardal diosg PPE. Dywedwyd wrthym hefyd fod gwahanol bosteri, rhestrau gwirio a threfniadau glanhau yn cael eu harddangos yn yr uned er mwyn helpu i gefnogi'r staff ac ymwelwyr i gynnal arferion hylendid da.

Gwelsom fod ymweliadau â'r cartref wedi'u cyfyngu er mwyn atal COVID-19 rhag cael ei drosglwyddo. Roedd hyn wedi ei gwneud hi'n anodd i rai o'r preswylwyr gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd fel arfer yn ystod y cyfnod hwn, er enghraifft dros y Nadolig neu ar eu pen-blwydd. Fodd bynnag, gwelsom fod y preswylwyr wedi gallu manteisio ar ymweliadau yn yr awyr agored yn ystod misoedd yr haf, gan ddefnyddio llechi i gadw mewn cysylltiad ar adegau eraill.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfyngiadau mewn perthynas â gadael y cartref a theithiau i'r gymuned wedi cael effaith andwyol ar y preswylwyr. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol clywed bod y staff wedi cymryd camau i sicrhau y gellid parhau i gynnal gweithgareddau cymaint â phosibl, er enghraifft drwy barhau i ddefnyddio cerbyd, gan ddefnyddio'r cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol, neu drwy baratoi pryd o fwyd tebyg i'r cludfwyd yr arferai un o'r preswylwyr ei gael ar ôl i'r siopau cludfwyd lleol gau. Roedd hyn wedi helpu i gynnal arferion dyddiol y preswylwyr, gan leihau'r gorbryder a oedd yn gysylltiedig â'r ffaith na ellid cynnal cymaint o weithgareddau cymunedol.

Gwelsom fod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol wedi parhau drwy gydol y pandemig ar ffurf rithwir. Dywedodd y staff fod pob tîm wedi darparu mewnbwn da a bod cymorth seiciatrig a seicolegol ar alw ar gael lle bo angen. Mewn un enghraifft a ddisgrifiwyd gan y staff, gwelsom fod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ar gyfer un o'r preswylwyr wedi cynyddu i rai wythnosol, a oedd yn helpu i ddangos bod anghenion gofal a thriniaeth y preswylwyr yn cael eu hadolygu'n amserol.

Gwnaethom ystyried y ffordd y cafodd anghenion corfforol y preswylwyr eu diwallu'n barhaus yn ystod y pandemig. Cadarnhawyd bod pob preswylydd wedi cael, neu yn mynd i gael, archwiliad iechyd blynyddol[1] gan ei Feddyg Teulu. Mae hyn yn sicrhau bod anghenion iechyd a llesiant cyffredinol y preswylwyr yn cael eu diwallu. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi gallu dibynnu ar y practis meddyg teulu lleol yn ystod y pandemig, gan gynnwys cael ymgyngoriadau dros y ffôn a rhithwir.

Cadarnhawyd bod pob preswylydd wedi cael y ddau frechiad COVID-19. Roedd yn gadarnhaol nodi bod gwybodaeth hawdd ei deall briodol ar gael i helpu'r preswylwyr i ddeall mwy am COVID-19 a'r brechlyn, a oedd yn cynnwys ffurflenni cydsyniad priodol, y gwelsom dystiolaeth ohonynt.

Cadarnhaodd y staff fod gan bob preswylydd basbort iechyd[2], sy'n hybu gofal diogel ac unigol i'r rhai y gall fod angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal eilaidd, megis yr adran achosion brys yn yr ysbyty. Er y dywedwyd wrthym fod dau o'r preswylwyr wedi bod yn sâl gyda COVID-19, roedd yn gadarnhaol nodi na fu'n rhaid i'r naill breswylydd na'r llall gael ei dderbyn i ysbyty lleol, a gallai'r staff ddisgrifio'r trafodaethau a gafwyd â'r timau clinigol er mwyn gofalu am y preswylwyr yn briodol a'u hynysu yn yr uned. Dywedodd y staff wrthym fod y teuluoedd wedi cael diweddariadau rheolaidd yn ystod y cyfnod anodd hwn, a bod mewnbwn y teuluoedd wedi helpu'r staff i ddarparu'r haen ychwanegol hon o ofal a thriniaeth.

Mae'r uned yn gofalu am oedolion ag anghenion cymhleth ac, fel y cyfryw, mae'r preswylwyr yn dangos amrywiaeth o ymddygiadau heriol ar adegau. Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn cofnodi pob ymyrraeth mewn cofnod unigol ar gyfer pob preswylydd, gan gynnwys y dyddiad, amseroedd a hyd pob ymyriad. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn rhoi pwyslais ar sicrhau eu bod yn dilyn yr arferion lleiaf cyfyngol, a bod cyfnod o adolygu a dadfriffio yn dilyn unrhyw ymyrraeth. Er bod y staff yn teimlo bod y preswylwyr wedi ymdopi'n dda iawn mewn ymateb i'r pandemig, roedd salwch yn gysylltiedig â COVID-19 wedi achosi pryder a gofid ymhlith rhai o'r preswylwyr o ganlyniad i effeithiau'r salwch, a oedd yn cynnwys nam ar y synhwyrau. Gallai'r staff ddisgrifio'r ffordd y rhoddwyd sicrwydd i'r preswylwyr, a'r ffordd yr oedd PPE ychwanegol wedi'i ddefnyddio i gefnogi'r staff wrth roi gofal uniongyrchol.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwnaethom edrych ar nifer o archwiliadau asesiadau risg a gohebiaeth mewn perthynas â'r uned a'i hamgylchedd. Gwelsom fod amrywiaeth o faterion amgylcheddol a chynnal a chadw yn yr uned, sy'n effeithio ar allu cyffredinol y staff a'r gwasanaeth i ddarparu

[1] Mae gan bob unigolyn ag anabledd dysgu hawl i gael archwiliad iechyd blynyddol a all nodi cyflyrau iechyd nas canfuwyd yn gynnar, ac sy'n rhoi cyfle i'r unigolion drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt.

[2] Mae pasbort iechyd yn darparu gwybodaeth bwysig am y claf ag anabledd dysgu, gan gynnwys y math o feddyginiaeth y mae'n ei gymryd, unrhyw gyflyrau iechyd presennol sydd ganddo, a'i hoff bethau, ei gas bethau a'r dulliau cyfathrebu sy'n well ganddo.

amgylchedd addas. Er y gwelsom fod cynnydd yn cael ei wneud i unioni rhai o'r materion hyn mewn modd amserol a chymesur, roedd nifer o faterion yr oedd angen rhoi sylw iddynt o hyd, ac roedd rhai ohonynt wedi bod heb eu datrys ers cryn dipyn o amser. Er ein bod yn cydnabod yr heriau a wynebwyd yn sgil y pandemig, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff materion cynnal a chadw yn yr uned eu hadolygu a'u datrys mewn modd amserol ac effeithiol.

Gwelsom hefyd fod cynllun a chyfleusterau'r uned yn golygu nad oedd yr amgylchedd bob amser yn gwbl ffafriol i ddiwallu anghenion un o'r preswylwyr yn benodol. Y rheswm dros hyn yw nad oedd llety'r preswylydd hwn yn cynnwys rhai o'r cyfleusterau y cafodd fudd ohonynt yn ei lety blaenorol, gan olygu bod llai o fudd therapiwtig i'r unigolyn hwnnw. Er y cawsom sicrwydd bod gofal diogel yn cael ei roi, byddem yn gofyn i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir gwireddu'r buddion therapiwtig ar gyfer yr unigolyn hwn, a rhai eraill yn yr uned, yn llawn.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisïau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod asesiad risg atal a rheoli heintiau cyffredinol wedi cael ei gwblhau yn ddiweddar, a bod camau wedi cael eu cymryd i gofnodi unrhyw faterion a nodwyd yn yr asesiad. Ategwyd hyn gan asesiad risg COVID-19 penodol, a oedd yn amlinellu nifer o fesurau a roddwyd ar waith gan yr uned, megis cadw pellter cymdeithasol a defnyddio PPE.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant ar wisgo a diosg er mwyn sicrhau eu bod yn gallu defnyddio a gwaredu PPE yn gywir. Cadarnhaodd y staff hefyd fod digonedd o PPE a chyflenwadau eraill, megis gel dwylo, ar gael. Gwelsom hefyd fod yr uned wedi cael PPE ychwanegol pan oedd angen.

Er bod yr uned yn gyfrifol am ei gwaith glanhau a chadw tŷ ei hun, gwelsom fod y staff yn ystyriol o'r angen i sicrhau bod cyngor proffesiynol yn cael ei ddilyn. Cawsom enghreifftiau o ohebiaeth lle roedd yr uned wedi ceisio eglurder neu gyngor ynghylch nifer o faterion yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau. Nododd y staff eu bod yn cael cefnogaeth dda gan y nyrs gyswllt ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd wedi parhau'n bwynt cyswllt cyson â'r uned.

Cadarnhaodd y staff fod y bwrdd iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi darparu cymorth yn ystod y brigiad o achosion o COVID-19 yn yr uned. Roedd yn gadarnhaol clywed y staff yn disgrifio'r ffordd roeddent wedi parhau i ganolbwyntio ar anghenion y preswylwyr drwy

gydol y cyfnod hwn, er enghraifft drwy lenwi sifftiau yn fewnol lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn cyfyngu ar nifer y bobl newydd a oedd yn dod i mewn i'r uned. Gwelsom hefyd fod yr uned wedi manteisio ar gapasiti glanhau ychwanegol drwy ddefnyddio contractwyr allanol, a fu'n glanhau'r uned yn drylwyr am gyfnodau cyfyngedig o amser drwy gyfnod y brigiad o achosion.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella**

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff ar gael sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, a'u bod yn gallu cysylltu â gweithwyr anableddau dysgu proffesiynol eraill pan fydd angen. Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Nodwyd bod y pandemig a digwyddiadau yn ystod y misoedd diwethaf wedi cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth, gan effeithio ar lefelau staffio a llesiant y staff. Fodd bynnag, roedd yn galonogol clywed am y dull cymorth tîm cadarn, gyda'r bwrdd iechyd yn darparu cymorth ychwanegol er mwyn sicrhau bod llesiant y staff yn cael sylw.

Gwelsom fod lefelau staffio y cytunwyd arnynt ar waith yn y gwasanaeth a bod y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai angen uwchgyfeirio unrhyw bryderon am staffio. Nodwyd bod achosion o salwch ac absenoldebau staff a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig wedi effeithio ar lefelau staffio'r uned. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod y tîm staff presennol wedi gweithio'n galed i ymateb i unrhyw brinder staff er mwyn sicrhau bod y staff yn parhau'n gyfarwydd â'r preswylwyr. Lle bu angen defnyddio staff banc, dywedwyd wrthym fod yr uned wedi defnyddio staff yr oedd y gwasanaeth yn gyfarwydd â nhw lle bynnag y bo'n bosibl, er mwyn sicrhau ymhellach fod y staff yn gyfarwydd â'r preswylwyr.

Cawsom gopi o'r ystadegau hyfforddiant gorfodol a gwelsom lefelau da o gydymffurfio ym mhob maes. Gwelsom hefyd fod meysydd hyfforddiant eraill sy'n benodol i anghenion y preswylwyr, megis alergenau a Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol[3], wedi cael eu cynnal yn dda ar y cyfan drwy gydol y pandemig. Cadarnhaodd y staff fod hyfforddiant wyneb yn wyneb yn cael ei flaenoriaethu'n briodol wrth i gyrsiau ddechrau cael eu cynnal eto. Gwelsom hefyd fod adolygiadau datblygiad personol yn gyfredol ar gyfer pob aelod o'r staff.

[3] Mae Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol yn cynnig fframwaith ar gyfer sicrhau dull o reoli ymddygiad heriol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Gwnaethom gadarnhau bod y preswylwyr a oedd yn destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)[4] wedi cael asesiadau amserol a oedd yn gyfredol. Roedd un preswylydd wedi cael ei gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, a gwelsom fod hyn wedi cael ei adnewyddu'n briodol, gyda mynediad priodol i wasanaethau eirioli. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod hawliau'r preswylwyr yn cael eu diogelu, a bod gofal a thriniaeth yn cael eu rhoi er budd pennaf yr unigolyn hwnnw.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

[4] Mae'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Nod y trefniadau diogelu yw sicrhau y gofelir am bobl mewn cartrefi gofal ac ysbytai mewn ffordd nad yw'n cyfyngu'n amhriodol ar eu rhyddid.

# Cynllun gwella

## Lleoliad: Gwasanaeth Anableddau Dysgu (Cyf 20133)

## Dyddiad y gweithgarwch:13 Ebrill 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Er ein bod yn cydnabod yr heriau a berir gan y pandemig, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod problemau cynnal a chadw yn yr uned yn cael eu hadolygu a'u datrys mewn modd amserol ac effeithiol. | 2.1 | Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar waith rhwng BIPBA a BIPCTM yn dilyn newidiadau i ffiniau'r GIG.<br><br>Cyflwyno adroddiadau adolygu'r ystâd misol ar gyfer gofynion cynnal a chadw.<br><br>Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth i wneud gwaith dilynol ar ofynion cynnal a chadw yn uniongyrchol. | Rheolwr y Gyfarwyddiaeth<br><br>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth<br><br>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth | Eisoes ar waith<br><br>Diwedd mis Mai 2021<br><br>Diwedd mis Mai 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Er y cawsom sicrwydd bod gofal diogel yn cael ei roi, byddem yn gofyn i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir gwireddu'r buddion therapiwtig ar gyfer yr unigolyn hwn, a rhai eraill yn yr uned, yn llawn. | 4.1 | Sicrhau cyllid o £0.6m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ôl-groniadau o waith cynnal a chadw a gwaith datgarboneiddio heb ei wneud.<br><br>Asesiadau amgylcheddol ar gyfer datblygu'r amgylchedd, gan gynnwys cwblhau ceisiadau am waith cynnal a chadw heb ei wneud a'u cyflwyno i'r adran Cynllunio Cyfalaf i'w costio yn erbyn y gyllideb. Mae hyn yn cynnwys datblygiadau i'r amgylchedd a fydd yn gwella buddion therapiwtig y cleifion, gan gynnwys:-<br>• Prynu siglen<br>• Cynlluniau i ailgynllunio'r ardal fyw yn yr anecs. Mae hyn yn cynnwys gosod bath yn lle cawod.<br>• Cynlluniau ar gyfer mynediad i'r amgylchedd/ardd.<br>• Ffens preifatrwydd yn yr ardd<br><br>Cwblhau cynlluniau braslun ar gyfer y broses dendro a dechrau'r gwaith adeiladu.<br><br>Cynllunio cyfalaf i gael ei osod ar dendr drwy'r adran gaffael<br><br>Dechrau'r gwaith adeiladu | Cynllunio Cyfalaf y Bwrdd Iechyd<br><br>Nyrs Arweiniol y Gyfarwyddiaeth a Rheolwr y Gyfarwyddiaeth<br><br>Cynllunio Cyfalaf y Bwrdd Iechyd<br><br>Cynllunio Cyfalaf y Bwrdd Iechyd<br><br>Cynllunio Cyfalaf y Bwrdd Iechyd | Cwblhawyd mis Mawrth 2021<br><br>Diwedd mis Mai 2021<br><br>Mehefin 2021<br><br>Diwedd mis Mehefin 2021<br><br>Diwedd mis Medi 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cwblhawyd | Nyrs Arweiniol y Gyfarwyddiaeth a Rheolwr y Gyfarwyddiaeth | Diwedd mis Ionawr 2021 |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy’n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Gareth Bartley, Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth

Dyddiad: 06/05/2021